

CYNGOR SIR FYNWY

Gostyngiadau ac Eithruadau 2020-21

Diystyru Gostyngiad

Mae'r dreth gyngor yn seiliedig ar y dybiaeth fod dau neu fwy o oedolion yn byw mewn annedd. Unwaith y bydd plant yn cyrraedd 18 mlwydd oed, dylid nodi y cânt eu cyfrif ar gyfer dibenion y dreth gyngor os nad ydynt yn cymhwyso i gael eu diystyru. Ni chaiff costau'r dreth gyngor eu cynyddu os oes mwy na dau breswlydd ond gellir rhoi disgownt o 25% lle mai dim ond un preswlydd sydd - cyn belled ag mai'r annedd yw eu **hunig neu brif breswylfa**. Wrth gyfrif y nifer y bobl sydd â'u hunig neu brif breswylfa yn yr annedd, gall rhai gael eu "diystyru" ar gyfer dibenion y dreth gyngor fel sy'n dilyn:

Pobl mewn dalfa

Wedi'u cadw gan orchymyn llys mewn carchar, ysbyty neu ryw le arall (er nid os mewn dalfa am beidio talu'r dreth gyngor).

Pobl ag anhwylder meddwl difrifol

Y diffiniad statudol ar gyfer dibenion y dreth gyngor yw:

“Mae gan berson anhwylder meddwl difrifol os oes ganddynt nam difrifol ar ddeallusrwydd a gweithredu cymdeithasol (sut bynnag y cafodd ei achosi) a ymddengys yn barhaol”.

Mae angen tystysgrif feddygol gan feddyg neu ymarferydd meddygol arall i dystio bod y diagnosis yn seiliedig ar y diffiniad statudol hwn ac nid ar unrhyw farn feddygol arall. Yn ychwanegol, mae'n rhaid i'r person fod â hawl i o leiaf un o nifer o fudd-daliadau gwladol sy'n cynnwys:

budd-dal analluedd, lwfans byw i'r anabl, taliadau annibyniaeth personol, lwfans gweini, lwfans anabledd difrifol, cydran gofal y lwfans byw i'r anabl, pensiwn anabledd difrifol a mwy ... Gan y gall teitlau'r budd-daliadau newid, y peth gorau yw cyfeirio unrhyw ymholiadau i'r tîm Refeniw.

Pobl y mae budd-dal plant yn daladwy iddynt

Ni chaiff pobl dan 18 oed eu cyfrif ar gyfer dibenion y dreth gyngor. Fodd bynnag, cyn gynted ag y cyrhaeddant 18 oed ystyrir eu bod yn oedolion a cânt eu cyfrif os nad ydynt yn dod i gategori diystyru. Un categori o'r fath yw pan fo budd-dal plant yn dal i gael ei dalu iddynt.

Ymadawyr Ysgol a Choleg

Caiff pobl dan 20 oed sy'n gadael yr ysgol rhwng 1 Mai a 31 Hydref eu diystyru. Mae hyn yn golygu na chaiff y rhai sy'n gadael yr ysgol ond sy'n dechrau ar gwrs llawn-amser o addysg e.e. maent yn mynd i brifysgol, eu cyfrif ar gyfer dibenion y dreth gyngor hyd yn oed er eu bod dros 18 oed. Os oes yn dal ddau neu fwy o oedolion yn byw yn y cartref ni fydd hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth ond gallai rhiant sengl golli eu disgownt defnydd sengl oni bai am yr eithriad hwn.

Myfyrwyr

Rhai sy'n dilyn cwrs llawn-amser o addysg mewn sefydliad addysgol rhagnodedig. Mae'n rhaid i'r cwrs fod am o leiaf un flwyddyn academaidd (dim llai na 24 wythnos) gyda chyfnodau astudiaeth, hyfforddiant neu brofiad gwaith am gyfartaledd o 21 awr yr wythnos. Bydd y coleg neu brifysgol yn rhoi tystysgrif i ddilysu statws myfyrwyr a bydd angen i ni weld hynny cyn y rhoddwn y disgownt.

Nyrs dan hyfforddiant

Mae hyn yn rhywun nad yw wedi ymrestru mewn coleg neu brifysgol ond sy'n dilyn cwrs yn arwain at gofrestru priodol fel nyrs neu fydwrraig. Cânt eu diystyru oherwydd y cânt eu trin fel myfyrwyr academaidd.

Prentis

Mae hyn yn rhywun o unrhyw oedran a gyflogir ar gyfer diben dysgu crefft neu broffesiwn ac sy'n dilyn rhaglen hyfforddiant yn arwain at gymhwyster gydag achrediad. Fodd bynnag dim ond os yw eu cyflog ac unrhyw lwfans yn gyfanswm o ddim mwy na £195* yr wythnos y gellir caniatáu diystyru.

*(adolygir y lefel incwm)

Hyfforddeion Hyfforddiant leuenctid

Rhaid bod dan 25 oed ac yn dilyn hyfforddiant a drefnwyd dan Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 ac mae'n rhaid i'r cynllun hyfforddiant fod yn un a ddiffinnir yn Rheoliadau Lwfans Ceiswyr Swydd 1996.

Cleifion Ysbyty

Ni chaiff person sy'n treulio amser mewn ysbyty yn derbyn gofal neu driniaeth ei ddiystyru hyd yn oed os yw'n aros yn yr ysbyty am fisoedd lawer. Caiff y diystyru neilltuol yma ei olygu ar gyfer rhai y mae eu problemau iechyd yn golygu eu bod yn annhebyg o ddychwelyd adref ac sydd ag ysbyty GIG yn brif breswylfa iddynt yn awr. Mae'r sefyllfa hon yn gyffredin gyda phobl oedrannus sy'n aros am y cyfle i drosglwyddo ar sail barhaol i gartref preswyl neu ofal.

Cleifion mewn Cartrefi

Diystyrrir person sy'n breswyl mewn cartref gofal, hostel neu ysbyty annibynnol lle mae'n yn derbyn gofal neu driniaeth. Nid yw'n berthnasol i staff preswyl.

Gweithwyr Gofal

Math 1

I gael eu diystyru mae'n rhaid i weithiwr gofal un ai (1) ddarparu gofal neu gymorth ar ran corff perthnasol e.e. yr awdurdod lleol neu sefydliad elusennol **neu** (2) gael eu cyflogi gan y person sydd angen y gofal ar ôl cael eu cyflwyno gan sefydliad elusennol.

Mae'n rhaid iddynt ddarparu gofal am o leiaf 24 yr wythnos a pheidio derbyn tâl am fwy na £44* yr wythnos. Yn achos (2) uchod mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn breswyl mewn llety a ddarperir gan neu ar ran eu cyflogwr ar gyfer perfformio'r gwaith yn well. *(caiff lefel yr incwm ei adolygu)

Math 2

Gallwch hefyd gael eich diystyru os ydych yn darparu gofal i rywun sy'n breswyl yn yr un annedd os yw'r person sy'n derbyn y gofal yn derbyn budd-daliadau neilltuoel e.e. lwfans gweini cyfradd uwch, cydran gofal y Lwfans Byw i'r Anabl. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn newid teitlau'r lwfansau hyn yn felly mae bob amser yn well cyfeirio at y tîm Refeniw.

Yn anffodus **ni** fydd y diystyru yma ar gael i rai perthnasau y person sydd angen y gofal h.y. y gŵr neu wraig (mae'r un peth yn weithredol ar gyfer cyplau sy'n cydfyw) neu riant plentyn dan 18 oed.

Preswylwyr Hostelau

Caiff unrhyw breswylwyr eu diystyru os nad yw'r llety ar gyfer y digartref yn cynnwys unedau hunangynwysedig.

Aelodau (a dibynyddion) Pencadlysoedd Rhyngwladol a Sefydliadau Amddiffyn

Caiff y sefydliadau perthnasol eu rhestru dan adran 1 Deddf Pencadlysoedd Rhyngwladol a Sefydliadau Amddiffyn 1964.

Aelodau Cymunedau Crefyddol

Lle mai'r brif alwedigaeth yw gweddïo, myfyrio, addysg, lliniaru ddioddefaint neu unrhyw gyfuniad ohonynt. Yn ychwanegol, i gael ei ddiystyru rhaid i bob person beidio bod ag unrhyw gyfalaf a dim incwm (heblaw am unrhyw bensiwn galwedigaethol o gyflogaeth flaenorol). Mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn ddibynnol ar y gymuned am eu hanghenion bydol.

Aelodau (a dibynyddion) lluoedd arfog ar ymweliad

Os yw un person a fyddai fel arall yn atebol am dreth gyngor person sy'n byw yn yr annedd yn gysylltiedig gyda lluoedd arfog ar ymweliad, yna caiff yr annedd ei heithrio hyd yn oed os oes pobl eraill yn byw yn yr annedd. Fodd bynnag, os mai dim ond lletya mewn annedd mae aelod lluoedd arfog ar ymweliad yna ni fyddai'r diystyru yn weithredol oherwydd na fyddai'n atebol am y dreth gyngor (gan fod â buddiant isradd).

Priod heb fod yn Brydeinig i fyfyrwr

Caiff person sy'n briod neu bartner sifil neu ddibynnydd myfyriwr ei ddiystyru os nad yw'r person hynny yn ddinesydd Prydeinig ac yn cael ei atal gan reoliadau mewnffudo rhag cymryd cyflogaeth ar dâl neu hawlio budd-daliadau pan fydd yn y Deyrnas Unedig.

Personau gyda braint neu imiwnedd diplomatig

Mae'r eithriad hwn yn weithredol i bersonau y caiff breintiau ac imiwneddau eu rhoi iddynt gan nifer o statudau yn cynnwys Deddf Breintiau Diplomatig 1964. Rhaid i'r berson beidio bod yn breswlydd parhaol yn y Deyrnas Unedig.

Eiddo Gwag

Mae'r dreth gyngor llawn yn daladwy ar ôl i unrhyw eithriad a fod yn briodol yn dibynnu ar yr amgylchiadau ddod i ben. Y person(au) sy'n atebol i dalu'r tâl yma yw'r perchennog neu denant os oes les am 6 mis neu fwy nad yw wedi dod i ben. Fel y gellir dychmygu, mae hyn yn amhoblogaidd iawn oherwydd fod pobl yn dadlau nad ydynt yn defnyddio unrhyw un o wasanaethau Cyngor Sir Fynwy. Ni fedrir rhoi unrhyw ostyngiad neu gymorth treth gyngor ar eiddo gwag felly mae hyn yn ddrutach na phetai mai dim ond un preswlydd. Mae'r Llywodraeth yn bryderus iawn am nifer yr anheddau gwag o amgylch y wlad ar adeg pan fo prinder tai ac felly maent wedi pasio rheoliadau newydd yn rhoi'r pŵer i gynghorau godi tâl premiwm (hyd at 200%) ar eiddo gwag hirdymor (gwag am fwy na 12 mis ar ôl 1 Ebrill 2017) a/neu ar eiddo sy'n ail gartrefi. Daeth y rheoliadau newydd hyn i rym ar 1 Ebrill 2017 ond mae'n rhaid rhoi 12 mis o hysbysiad am newid mewn polisi o'r fath ac nid yw Cyngor Sir Fynwy wedi dod i benderfyniad ar hyn hyd yma. Os yw Aelodau yn penderfynu manteisio ar y cyfle hwn bydd yn rhaid iddynt benderfynu erbyn 31 Mawrth 2017 er mwyn codi'r costau uwch o 1 Ebrill 2018.

EITHRIADAU

Mewn rhai amgylchiadau ni fydd unrhyw dreth gyngor yn daladwy oherwydd fod yr eiddo yn gymwys am eithriad llawn. Mae cyfnod cyfyngedig ar rai o'r eithriadau hyn ond gall eraill barhau wedi eu heithrio cyhyd â bod y meini prawf cymhwyso yn parhau. Mae'n ofyniad mewn rhai eithriadau fod yr eiddo yn wag (neb yn byw ynddo a heb fawr iawn o gelfi)* tra ar gyfer eraill y cyfan sydd ei angen yw nad oes neb yn byw ynddo. **

Dosbarth A - uchafswm cyfnod lwfans 12 mis

Anheddau gwag sydd angen neu sy'n cael gwaith atgyweirio sylweddol i'w wneud yn addas i fyw ynddo **neu** sy'n cael newidiadau strwythurol. Medrir rhoi'r lwfans hwn am hyd at 6 mis ar ôl cwblhau'r gwaith cyn belled â bod yr eiddo wedi parhau'n wag (yn amodol ar y cyfyngiadau o isafswm cyfnod o 12 mis a ganiateir).

Mae angen tystiolaeth o waith e.e. lluniau, amcangyfrifon/anfonebau gan adeiladwyr ac yn y blaen. Mae'n rhaid i'n swyddog ymweld ei archwilio i ddilysu'r hawliad felly mae'n hanfodol gwneud cais cyn y dechreuir y gwaith.

Dosbarth B

Gall anheddau y mae elusen yn berchen arnynt fod wedi eu heithrio am hyd at 6 mis o'r dyddiad y daw'n wag cyn belled â'i fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion yr elusen hyd at y dyddiad hwnnw. Nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth os oes celfi ynddo ai peidio.

Dosbarth C

Mae'n rhaid i'r annedd fod yn wag h.y. heb yn ei defnyddio a heb fawr iawn o gelfi. Mae'r eithriad yn dechrau cyn gynted ag y daw'r eiddo yn wag a gall fod am hyd at 6 mis. Mae'r swm llawn yn daladwy ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben. Mae hyn yn bwysig ar gyfer darpar brynwyr sydd dan gamagraff y gallant hawlio'r eithriad 6 mis llawn os ydynt yn dod yn berchennog eiddo gwag. Mae angen iddynt ganfod faint o'r 6 mis sy'n dal ar gael, os oes unrhyw amser o gwbl.

Eithriad D

Mae eithriad llawn yn weithredol os gadewir annedd heb neb yn byw ynddi oherwydd bod y perchennog neu denant (a fyddai'n atebol i dalu'r dreth gyngor) wedi ei gadw mewn carchar, ysbyty neu le arall drwy orchymyn llys neu dan gyfraith filwrol.

Dosbarth E

Mae eithriad llawn yn weithredol lle mae unig neu brif breswylfa'r person sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor â'u hunig neu brif breswylfa mewn cartref gofal, hostel neu ysbyty preifat lle maent yn derbyn gofal neu driniaeth. Mae'n rhaid i'r annedd wedi bod yn flaenorol eu hunig neu brif breswylfa cyn symud i'r cyfleuster gofal.

Dosbarth F

Mae eithriad llawn yn weithredol pan mae'r unig ddefnyddiwr oedd yn atebol i dalu'r dreth gyngor yn marw. Os yw'r eiddo yn parhau heb i neb fod wedi byw ynddo ers dyddiad y farwolaeth (p'un ai oes celfi ynddo ai beidio) gellir rhoi eithriad llawn nes y rhoddir profiant neu lythyrau gweinyddu. Ar ôl y dyddiad hwnnw gall yr eithriad barhau am gyfnod pellach - hyd at 6 mis. Daw treth gyngor yn daladwy unwaith y daw hawl dan ddsbarth F i ben. Fel consesiwn mae'r rheoliadau yn nodi y gellir codi 50% yn unig am y 6 mis nesaf ac ar ôl hynny daw'r gost lawn yn daladwy sydd yr un fath ag ar gyfer eiddo gwag arall.

Crynodeb

Tra'n aros am brofiant - eithriad llawn

Unwaith y rhoddir profiant

0 i 6 mis - eithriad llawn

6 i 12 mis - tâl 50%

12 mis + - tâl 100%

Gellid hefyd ystyried cais am eithriad dan ddsbarth C (neb yn byw ynddo a dim celfi) a fyddai'n rhaid iddo ddechrau o'r dyddiad y symudwyd y celfi. Mae p'un ai yw hynny'n rhoi unrhyw fudd ychwanegol yn dibynnu ar faint o amser mae eithriad dosbarth F yn rhedeg gan y gallant gyd-redeg

Dosbarth G

Bydd yr eithriad yn weithredol os caiff preswylfaeth ei wahardd gan y gyfraith neu unrhyw Ddeddf Seneddol gyda golwg at atal neb rhag byw ynddo neu ei gaffael.

Dosbarth H

Caiff anheddau heb neb yn byw ynddynt oherwydd eu bod yn cael eu cadw ar gael ar gyfer gweinidog yr efengyl fel preswylfa y bydd yn berfformio dyletswyddau'r swydd eu heithrio.

Dosbarth I

Yn debyg i ddsbarth E heblaw y gadawyd yr annedd heb neb yn byw ynddi oherwydd fod y person a fyddai'n atebol am dalu'r dreth gyngor wedi mynd i fyw gyda rhywun arall er mwyn derbyn gofal. Rhaid i'r eiddo fod wedi bod eu hunig neu brif breswylfa cyn symud. Gall fod angen gofal oherwydd henoed, anabledd, salwch, dibyniaeth yn y gorffennol neu bresennol ar alcohol neu gyffuriau neu anhwylder meddwl yn y gorffennol a'r presennol. Mae eithriad llawn yn weithredol e.e. person oedrannus yn symud i fyw at aelod o'r teulu.

Dosbarth J

Yn debyg i ddsbarth I heblaw fod yr annedd wedi ei gadael heb neb yn byw ynddi oherwydd fod y person a fyddai'n atebol am dalu'r dreth gyngor wedi mynd i fyw gyda rhywun arall er mwyn rhoi gofal. Mae eithriad llawn yn weithredol e.e. aelod o'r teulu yn symud i fyw gyda rhiant oedrannus.

Dosbarth K

Pan fo perchennog eiddo heb neb yn byw ynddo yn fyfyrwr, gellir rhoi eithriad llawn os mai dyma ei unig neu brif breswylfa pan oedd rhywun yn byw ynddo ddiwethaf. Dim ond cyhyd ag mae'r person yn parhau'n fyfyrwr y mae'r eithriad yn parhau.

Dosbarth L

Os yw person yn diffygio ar ad-dalu morgais gall y benthycwyr (y morgeisiai) gymryd meddiant o'r eiddo a gall yn ddilydol ei werthu i dalu'r benthyciad heb ei ad-dalu. Nid yw'r eithriad hwn yn dechrau nes y caiff yr annedd ei gadael yn gwag gan y preswylwyr.

Dosbarth M

Mae eithriad llawn yn weithredol ar gyfer neuaddau preswyl myfyrwyr cyhyd ag y cânt eu perchnogi neu eu rheoli gan sefydliad addysgol a ragnodwyd neu gan gorff a sefydlwyd ar gyfer dibenion elusennol neu lle caiff mwyafrif y myfyrwyr eu henwebu gan sefydliad addysgol.

Dosbarth N

Mae unrhyw annedd a ddefnyddir gan fyfyrwr yn unig wedi ei eithrio cyn belled mai dyma eu llety yn ystod y tymor. Daw'r eithriad i ben pan nad yw unrhyw breswylwr mwyach yn diwallu meini prawf myfyrwr.

Dosbarth O

Mae llety byw a **ddarperir** ar gyfer lluoedd arfog y Deyrnas Unedig yn eithriedig ond caiff cyfraniadau yn lle'r dreth gyngor eu talu i awdurdodau lleol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Dosbarth P

Caiff annedd ei heithrio os oes gan y person a fyddai'n atebol gysylltiad perthnasol gyda lluoedd ar ymweliad o wlad y mae Deddf Lluoedd Arfog ar Ymweliad 1952 yn weithredol iddi.

Dosbarth Q

Rhoddir eithriad llawn lle mae'r person a fyddai'n atebol yn ymddiriedolydd mewn methdaliad. Nid yw o bwys os oes celfi yn yr eiddo ai peidio. Mae'r eithriad hwn yn atal unrhyw ymrwymiad pellach rhag cael ei ychwanegu at stad unigolyn sy'n fethdalwr.

Dosbarth R

Caiff lleiniau carafan ac angorfeydd cychod eu trin fel anheddau ar gyfer dibenion y dreth gyngor. Fodd bynnag, rhoddir eithriad llawn ar gyfer llain heb garafan neu angorfa heb gwch.

Dosbarth S

Caiff unrhyw annedd a ddefnyddir yn unig gan berson(au) dan 18 oed ei eithrio.

Dosbarth T

Mae hyn yn weithredol ar gyfer anheddau heb neb yn byw ynddynt a ystyrir fel arfer fel "fflatiau mamgu" ond gall hefyd ymestyn i fathau eraill o eiddo e.e. adeiladau amaethyddol. Dyma lle mae'r ail annedd yn rhan o (brif) annedd arall ac na ellir gosod yr ail annedd ar wahân heb dorri rheoli adeiladau. Mae'r eithriad hwn yn parhau hyd yn oed os daw'r prif annedd yn wag.

Dosbarth U

Mae gan anheddau a ddefnyddir yn unig gan berson(au) sydd ag "anhwylder meddwl difrifol" eithriad llawn. Mae'r diffiniad o berson gydag anhwylder meddwl difrifol yr un fath ag sydd ei angen ar gyfer ystyried diystyru gostyngiad. Fodd bynnag, nid yw'r eithriad hwn yn ymestyn i gartrefi preswyl hyd yn oed os oes gan yr holl breswylwyr amhariad meddwl difrifol oherwydd fod yr atebolrwydd am y math hwn o gartref yn aros gyda'r perchennog nad yw'n breswyl.

Dosbarth V

Caiff annedd ei heithrio os yw'n brif breswylfa yn y Deyrnas Unedig ar gyfer o leiaf un berson sydd â breintiau ac imiwneddau diplomatig. Fodd bynnag, os oes hefyd breswylfdd gyda diddordeb uwch, yn nhermau hierarchiaeth atebolrwydd, yna nid yw'r eithriad yn weithredol. Fodd bynnag gall fod cyfle am ddisgownt diystyru.

Dosbarth W

Caiff annecys y mae rhywun yn byw ynddo ei eithrio os yw'n rhan o un eiddo yn cynnwys o leiaf un annedd arall ac yn unig neu brif breswylfa perthynas sy'n ddibynnol ar rywun yn byw yn yr annedd arall. Ar gyfer y diben hwn mae perthynas sy'n ddibynnol yn

- (a) aged 65 or more
- (b) severely mentally impaired or
- (c) substantially and permanently disabled (whether by illness, injury, congenital deformity or otherwise).

The list of persons considered to be a relative is exhaustive and includes those who are related because of a marriage and partners living together as a couple.